

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**28 Chwefror 2023**

## **RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL**

### **1 Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (“Rheoliadau 2005”) a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2006. Mae Rheoliadau 2023 yn ymdrin â newid rhestrau ardrethi annomestig gan swyddogion prisio, a’r broses ar gyfer cynnig unrhyw newidiadau ac ar gyfer apelio, pe bai anghytuno mewn perthynas â chynnig.

### **2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

### **3 Cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) yn nodi’r modd y caiff y system ardrethu annomestig ei gweithredu, gan gynnwys cyfrifoldebau llywodraeth leol a rôl Asiantaeth y Swyddfa Brisio wrth lunio a chynnal rhestrau ardrethi. Mae adran 55 o Ddeddf 1988 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y broses apelio ar gyfer ardrethu annomestig. Mae Rheoliadau 2023 wedi eu gwneud o dan bwerau perthnasol yn adrannau 42, 53, 55 a 143 o Ddeddf 1988 ac Atodlenni 6, 7A, 9 ac 11 iddi.

3.2 Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft.

### **4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Diben Rheoliadau 2023 yw diwygio’r system apelio ar gyfer ardrethu annomestig yng Nghymru. Gweinyddir y system gan ddau sefydliad annibynnol, gyda’r naill a’r llall yn gyfrifol am gamau gwahanol o’r broses. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (yr Asiantaeth) yn gyfrifol am brisio a rhestru hereditamentau ar gyfer ardrethi annomestig, gan gynnwys ystyried cynigion gan drethdalwyr sy’n credu y dylid newid eu prisiad. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (y Tribiwnlys) yn gyfrifol am apelau, pan na cheir cytundeb rhwng trethdalwr a’r Asiantaeth mewn perthynas â newid arfaethedig i brisiad.

4.2 Mae Rheoliadau 2023 yn rhoi proses newydd ar waith, wedi’i hategu gan blatfform digidol Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy’n galluogi trethdalwyr i ymgysylltu â’r Asiantaeth. Maent hefyd yn gwneud nifer bach o newidiadau eraill i’r trefniadau ar gyfer apelio i’r Tribiwnlys. Nod y newidiadau yw gwella effeithlonrwydd y system ar gyfer trethdalwyr a chyrff cyhoeddus drwy leihau hap-apelau ac apelau aflwyddiannus. Maent hefyd yn hwyluso’r broses o gyrraedd y nod polisi ehangach o sicrhau bod ailbrisio ardrethi annomestig

yn digwydd yn amlach, gan sicrhau bod biliau trethdalwyr yn adlewyrchu'n fwy cywir yr amodau economaidd cyfredol ac, yn ei dro, leihau'r tebygolrwydd y bydd apêl yn cael ei chyflwyno.

- 4.3 Bydd y platfform digidol yn cadw data prisio ardrethi annomestig ac yn darparu'r porth i drethdalwyr weld a chyfnewid gwybodaeth â'r Asiantaeth. Bydd hyn yn darparu cyfleuster ar-lein i drethdalwyr 'wirio' a 'herio' eu prisiadau, mewn ffordd debyg i'r broses a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2017. Mae Rheoliadau 2023 yn nodi'r gweithdrefnau hyn, gan ddisodli trefniadau'r Asiantaeth ar gyfer ystyried newidiadau i'r rhestr ardrethi annomestig a ddarparwyd gynt gan Reoliadau 2005. Bydd y broses ar gyfer Cymru yn elwa ar y gwelliannau a wnaed i'r broses ar gyfer Lloegr wedi iddi gael ei chyflwyno'n wreiddiol.
- 4.4 Bydd y cam gwirio yn ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr (neu unrhyw berson arall sydd â buddiant) wneud cais am yr wybodaeth a gedwir gan yr Asiantaeth am yr hereditament, ac adolygu'r wybodaeth honno. Bydd y cam herio wedyn yn ystyried unrhyw anghytundeb ac yn caniatáu i brisiad arall gael ei gynnig, wedi'i ategu gan dystiolaeth. Efallai y bydd yr Asiantaeth yn penderfynu bod angen newid y rhestr ardrethi yn unol â'r cynnig, ei newid mewn ffordd arall, neu'n penderfynu nad oes angen ei newid o gwbl. Mae Rheoliadau 2023 yn darparu ar gyfer cau rhestr ardrethi drwy bennu na fydd modd i berson gyflwyno her os nad yw wedi dechrau'r cam gwirio ac wedi cadarnhau bod yr wybodaeth a gedwir gan yr Asiantaeth am ei eiddo yn gywir cyn y diwrnod y caiff y rhestr ardrethi nesaf ei llunio. Mae nifer bach o seiliau penodol y caniateir amser ychwanegol ar eu cyfer.
- 4.5 Ar y cyd â chyflwyno'r platfform digidol, mae Rheoliadau 2023 yn cyflwyno cyfundrefn gosbi, sy'n caniatáu i'r Asiantaeth osod cosb o £200 ar berson sy'n darparu gwybodaeth anwir a hynny'n fwriadol, yn ddi-hid neu'n ddiotal. Cyflwynir cosbau yn ôl disgrisiwn yr Asiantaeth a bydd modd i'r sawl sy'n cael cosb apelio i'r Tribiwnlys.
- 4.6 Ar ôl cwblhau'r camau gwirio a herio bydd modd i drethdalwyr gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys o fewn cyfnod o bedwar mis yn dilyn penderfyniad yr Asiantaeth ar her. Pan na chaiff penderfyniad ei wneud o fewn 18 mis, caiff y trethdalwr gyflwyno apêl o fewn pedwar mis ar ôl y cyfnod o 18 mis.
- 4.7 Mae'r newidiadau i gam apelio'r Tribiwnlys yn fwy cyfyngedig na'r newidiadau i'r camau cynharach yn y broses. Ni fydd heriau yn trosglwyddo'n awtomatig i apelau mwyach pan na fo'r Asiantaeth wedi gwneud penderfyniad ar ôl tri mis. Mae Rheoliadau 2023, felly, yn nodi'r seiliau, y broses a'r terfynau amser ar gyfer gwneud apêl. Bydd rhannau helaeth o'r broses ar gyfer y cam apelio yn aros yr un fath, a chedwir darpariaethau perthnasol o Reoliadau 2005, gyda rhai diwygiadau iddynt. Mae Rheoliadau 2023 yn rhoi pwerau gwneud rheolau ehangach i'r Tribiwnlys, sy'n ei alluogi i reoleiddio rhannau o'i weithdrefnau nad ydynt wedi'u rhagnodi mewn rheoliadau.

- 4.8 Bydd cyfyngiadau hefyd ar ddarparu tystiolaeth newydd yn ystod y cam apelio. Bydd Rheoliadau 2023 yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r Tribiwnlys i'w alluogi i wneud penderfyniad cywir a theg. Yr unig adeg y caniateir cyflwyno tystiolaeth newydd yn ystod y cam apelio yw pan nad oedd yr wybodaeth honno'n hysbys, neu os na ellid bod wedi ei chael yn rhesymol, cyn i'r Tribiwnlys ystyried yr her.
- 4.9 Bydd Rheoliadau 2023 yn dod i rym ac yn cymryd effaith o 1 Ebrill 2023, pan ddaw'r rhestr ardrethi nesaf i rym.

## 5 Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd [ymgynghoriad](#) polisi rhwng 17 Hydref 2017 a 9 Ionawr 2018. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn am gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r system apelio ar gyfer ardrethu annomestig yng Nghymru, yn unol â'r diben a'r effaith fwriadedig a nodir uchod. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Ebrill 2018.
- 5.2 Cafwyd 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ymhlith yr ymatebwyr roedd asiantiaid eiddo, cyrff cynrychioliadol ehangach, cynrychiolwyr sy'n benodol i'r sector, trethdalwyr, a dinasyddion.
- 5.3 Ar y cyfan, roedd y safbwyntiau yn yr ymgynghoriad yn cefnogi newidiadau. Un o'r negeseuon allweddol oedd na ddylid gwneud newidiadau hanner ffordd drwy restr ardrethi (rhwng ailbrisiadau) ac mai'r amser gorau i wneud newidiadau fyddai ar ddechrau'r rhestr newydd nesaf, a oedd ar y pryd wedi'i chynllunio ar gyfer 1 Ebrill 2021. O ganlyniad i bandemig y coronafeirws, mae'r ailbrisiad nesaf wedi'i aildrefnu ar gyfer 1 Ebrill 2023. Awgrymwyd hefyd y dylid monitro'r defnydd o blatfform digidol Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn Lloegr cyn penderfynu a ddylid ei estyn i Gymru ai peidio.
- 5.4 Roedd drafft o Reoliadau 2023 yn destun [ymgynghoriad technegol](#) rhwng 19 Gorffennaf a 11 Hydref 2022. Cafwyd 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed nifer bach o newidiadau i'r gwaith drafftio ar gyfer y Rheoliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r bwriad polisi ac er mwyn darparu eglurder.

## RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6 Opsiynau

6.1 Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cynnig dau opsiwn mewn perthynas â'r system a ddefnyddir i weinyddu apelau ynghylch ardrethi annomestig. Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cyhoeddi.

6.2 Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

**Opsiwn 1 – Gwneud dim.** Cadw'r system apelio bresennol, heb wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

**Opsiwn 2 - Gwneud y Rheoliadau.** Deddfu er mwyn gweithredu'r system apelio fodern, gan ddefnyddio plattform digidol Asiantaeth y Swyddfa Briso. Byddai'r system mewn grym o ddechrau rhestr ardrethi 2023.

### 7 Costau a manteision

#### Opsiwn 1 – Gwneud dim

7.1 Ni fyddai gofyn gwneud unrhyw newid deddfwriaethol gydag Opsiwn 1. Byddai'r fframwaith apelio presennol yn parhau mewn grym. Byddai heriau nad ydynt yn cael eu datrys o fewn tri mis hefyd yn parhau i gael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r Tribiwnlys fel apêl.

#### Costau

7.2 Byddai Opsiwn 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth weithredu systemau gwahanol yng Nghymru a Lloegr a byddai cost ynghlwm wrth gadw'r system bresennol neu ddatblygu system arall. Nid oes modd pennu union gost peidio â symud i blatfform digidol yr Asiantaeth fel y nodir yn y Rheoliadau. Mae'r Asiantaeth wedi awgrymu y byddai'r gost o gadw'r gweithdrefnau presennol yn sylweddol uwch na'r gost sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r plattform digidol.

7.3 Byddai trethdalwyr a chyrrff cyhoeddus yn wynebu cost cyfle wrth barhau i ddefnyddio'r system bresennol yn hytrach na mabwysiadu'r plattform digidol modern. Mae'n debyg y byddai angen rhagor o adnodd er mwyn rhannu gwybodaeth. Ni fyddai trethdalwyr yng Nghymru yn elwa ychwaith ar ddatblygiadau a wneir i'r system yn y dyfodol, gan gynnwys datblygiadau a fydd yn helpu i sicrhau bod ailbrisió'n digwydd yn amlach yn y dyfodol.

#### Manteision

7.4 Byddai gwneud dim yn sicrhau na fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

- 7.5 Mae'r dull presennol yn gyfarwydd i drethdalwyr, sy'n deall y prosesau sydd eisoes ar waith.

### **Anfanteision**

- 7.6 Ni fyddai gwneud dim yn mynd i'r afael â nodau polisi Llywodraeth Cymru a'r penderfyniad a gyhoeddwyd yn dilyn yr ymgynghoriad. Ni fyddai ychwaith yn sicrhau bod dull cyson o ymdrin ag apelau yng Nghymru a Lloegr. Byddai peidio â mabwysiadu'r plattform digidol yn cyfyngu ar y cyfleoedd posibl i wella'r system apelio fel rhan o gynlluniau ar gyfer diwygio yn y tymor hwy.

### **Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau**

- 7.7 Gwneud Rheoliadau i ddiwygio'r system apelio fyddai Opsiwn 2, er mwyn cyflwyno plattform digidol yr Asiantaeth ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru. Mae'r system eisoes mewn grym yn Lloegr a byddai'n sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio gan drethdalwyr ledled Cymru a Lloegr. Byddai'r newidiadau'n dod i rym o 1 Ebrill 2023, yn unol â'r rhestr ardrethi nesaf, ac yn gymwys o hynny ymlaen.

### **Costau**

- 7.8 Wrth fabwysiadu'r plattform digidol byddai rhaid talu cost gweithredu ymlaen llaw. Mae'r Asiantaeth wedi amcangyfrif y byddai'n costio cyfanswm o oddeutu £190,000 i estyn y gwasanaeth i eiddo yng Nghymru. Mae'r Asiantaeth eisoes wedi mynd i rywfaint o'r gost hon wrth baratoi i weithredu'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2023. Disgwylir i'r costau parhaus yn sgil cynnal proses sydd wedi'i hategu gan y plattform digidol fod yn sylweddol is na'r gost o gadw'r trefniadau presennol.
- 7.9 Bydd cost amser cychwynnol ar gyfer trethdalwyr nad ydynt eisoes yn gyfarwydd â'r plattform digidol ac nad ydynt eisoes wedi'u cofrestru ag ef, pe baent yn dymuno herio gwerth ardrethol eu heiddo.

### **Manteision**

- 7.10 O'i fabwysiadu, byddai'r plattform digidol yn caniatáu i wybodaeth lifo'n rhwydd rhwng y trethdalwyr a'r Asiantaeth. Byddai hyn yn hwyluso'r gwaith o wneud gwelliannau pellach i'r system yn y dyfodol, sy'n bwysig o ran sicrhau bod modd gwneud diwygiadau ehangach i'r system ardrethu annomestig.
- 7.11 Pan fydd ar waith, mae disgwyl i'r baich gweinyddol leihau wrth i'r plattform digidol wneud y broses yn haws a sicrhau ei bod yn cymryd llai o amser. O ran trethdalwyr mwy, sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr, byddai mantais o weithredu o dan ddull cyson, fel y gwelwyd yn y gorffennol.
- 7.12 Bydd y broses yn parhau'n deg i drethdalwyr ac yn rhoi cyfle iddynt herio prisiadau ac apelio yn eu herbyn heb orfod talu ffioedd. Yr unig adeg y caniateir codi cosbau yw mewn achosion pan fo trethdalwyr wedi darparu gwybodaeth y gwyddys ei bod yn ffug.

- 7.13 Gan na fyddai heriau nad ydynt wedi'u prosesu yn trosglwyddo'n awtomatig i'r Tribiwnlys mwyach, byddai hyn yn debygol o arwain at lai o bwysau ar y system tribiwnlysoedd yn sgil apelau diangen.
- 7.14 Wrth wneud y Rheoliadau byddai modd mynd i'r afael â nodau polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau gwell system ardrethu annomestig yng Nghymru. Byddai hefyd yn golygu ailgyflwyno dull cyson o ran rheoli apelau yng Nghymru a Lloegr.

### ***Anfanteision***

- 7.15 Mae'n bosibl y bydd ansicrwydd i ddechrau, a mwy o faich gweinyddol ar drethdalwyr wrth iddynt addasu i'r platfform newydd. Fodd bynnag, mae'r platfform wedi'i gynllunio fel ei fod yn hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio.

## **8 Crynodeb o'r opsiynau**

- 8.1 Ni fyddai'r opsiwn o wneud dim yn arwain at unrhyw newidiadau i'r broses bresennol ar gyfer rheoli apelau, a byddai'r gost o barhau i ddefnyddio'r system bresennol yn fwy na'r gost o fabwysiadu'r system newydd. Ni fyddai trethdalwyr yng Nghymru yn elwa ar brosesau modern ychwaith. Mae Opsiwn 1 hefyd yn cyflwyno risgiau o ran cyflawni'r nod polisi ehangach o sicrhau bod ailbrisió'n digwydd yn amlach. Felly, nid Opsiwn 1 yw'r dull a ffefrir.
- 8.2 Byddai Opsiwn 2 yn fwy costeffeithiol a byddai'n sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru yn elwa ar y system orau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer rheoli apelau. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cefnogi amcan polisi ehangach Llywodraeth Cymru o sicrhau bod ailbrisió'n digwydd yn amlach, er budd y trethdalwyr ac er tegwch i'r system ardrethu annomestig yn gyffredinol.
- 8.3 Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir.

## 9 Dyletswyddau

- 9.1 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Bydd sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru yn gallu defnyddio platfform apelio modern yn gwneud y gwaith o brosesu apelau yn fwy effeithlon. Bydd hyn yn cefnogi sefydlogrwydd ac eglurder o ran sylfaen drethu'r ardrethi annomestig ac yn cyfrannu at yr amcan llesiant o sicrhau Cymru lewyrchus.
- 9.2 **CCUHP.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.
- 9.3 **Y Gymraeg.** Ni nodwyd unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon.
- 9.4 **Cydraddoldebau.** Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- 9.5 **Y sector gwirfoddol.** Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

## 10 Asesu'r Gystadleuaeth

- 10.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal ar Reoliadau 2023 a bernir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar y gystadleuaeth yn isel.

## 11 Adolygu ar ôl gweithredu

- 11.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y newid drwy gydweithio'n agos â'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys ac ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid er mwyn asesu effeithiolrwydd gweithdrefnau newydd a'r effaith ar gyfanswm nifer yr apelau yn y system apelio.